# Ysgol Nebo

# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL

## Rhagfyr 2025

# Cynnwys


Rhagair ... 4
1. Cyflwyniad ... 5
1.1 Y Cynnig sy'n Destun i'r Ymgynghoriad Statudol ... 5
2. Yr Ymgynghoriad ... 5
3. Gwybodaeth Gefndirol ... 9
3.1. Sut y Datblygwyd y Cynnig ... 9
3.2 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ... 9
3.3 Panel Adolygu Ysgol Nebo ... 10
4. Trefniadau Presennol yn Ardal Nebo ... 11
4.1 Ysgol Nebo ... 11
4.2 Ysgol Llanllyfni ... 12
4.3 Ysgol Bro Llifon ... 12
4.4 Ysgol Brynaerau ... 12
4.5 Ysgol Bro Lleu ... 12
4.6 Ysgol Talysarn ... 12
4.7 Ysgol Baladeulyn ... 13
4.8 Categorïau Ysgolion ... 13
4.9 Crynodeb o Ystadegau'r Ysgolion: ... 14
5. Achos Dros Newid ... 16
5.1. Y Sefyllfa Bresennol ... 16
5.2. Niferoedd Dysgwyr a Rhagamcanion ... 16
5.3. Cryfderau a Gwendidau y Sefyllfa Bresennol ... 18
6. Gwerthuso Opsiynau ... 19
6.1 Cymharu Opsiynau ... 20
6.2 Asesiadau Effaith – Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ... 31
6.3 Casgliadau'r gwerthusiad o'r opsiynau ... 34
7. Y Cynnig ... 41
7.1 Rheswm dros y Cynnig ... 41
7.2 Ansawdd yr Addysg ... 42
7.3 Maint Dosbarthiadau ac Ystod Oedran Priodol ... 45
7.4 Niferoedd Dysgwyr ... 46
7.5 Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ... 47
7.6 Darpariaeth Feithrin a Blynyddoedd Cynnar ... 48
7.7 Adnoddau Ariannol ... 49
7.8 Amgylchedd Dysgu ... 50
7.9 Y Gymuned ... 51

7.10 Yr Iaith Gymraeg ..... 52
7.11 Ffactorau Daearyddol ..... 55
7.12 Effaith ar gydraddoldeb ..... 57
7.13 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ..... 58
7.14 Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol ..... 58
7.15 Ôl ddefnydd y safle ..... 58
7.16 Risgiau Posibl ..... 59
7.17 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig ..... 59
8. Crynodeb o'r Cynnig ..... 60
9. Egluro'r Broses Statudol a Manylion Ymgynghori ..... 60
10. Amserlen Arfaethedig ..... 62

Atodiad 1 – Ffurflen Ymateb ..... 63

# Rhagair

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 14 Hydref 2025, penderfynodd y Cabinet i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu addysg i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng **5 Rhagfyr 2025** a **23 Ionawr 2026,** yn seiliedig ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu addysg i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Byddai Cyngor Gwynedd yn hoffi i chi gyflwyno eich barn fel y gellir ei hystyried cyn gwneud penderfyniad. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Mae copi o'r ddogfen hon, a phapurau cefndirol eraill, ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo a bydd copïau caled o'r holl ddogfennaeth hefyd ar gael ar gais i'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio **01286 679247**.

**SYLWER** – dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol at y Swyddfa Moderneiddio Addysg erbyn **13:00 ar ddydd Gwener, 23 Ionawr 2026**. Cewch hyd i'r manylion cyswllt perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

Gwern ap Rhisiart
**Pennaeth Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Nebo o ganlyniad i'r nifer isel o ddysgwyr yn mynychu'r ysgol. Ym mis Medi 2025, 11 o ddysgwyr oed Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr oed Meithrin oedd ar y gofrestr. Enwir Ysgol Llanllyfni, fel yr 'Ysgol Amgen' a chynigir darparu lle i'r dysgwyr yma.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ystyried sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Nebo er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses ymgynghori, y ffactorau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn berthnasol a'r broses o wneud penderfyniadau.

## 1.1 Y Cynnig sy'n Destun i'r Ymgynghoriad Statudol hwn yw:

Cau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

# 2. Yr Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng **5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026.**

**Dim ond ag Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig fel disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod.**

Bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei ddosbarthu i'r ymgynghorai canlynol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru:

| Gofynion y Cod Trefniadaeth 011/2018 | Dosberthir i... |
|---|---|
| Awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Cyngor Gwynedd sy'n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi; | Cynghorau Powys, Dinbych, Conwy ac Ynys Môn |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | - |

| | |
|---|---|
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | - |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Corff Llywodraethu Ysgol Nebo<br>Corff Llywodraethu Ysgol Llanllyfni |
| Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt; | Corff Llywodraethwyr Ysgol Bro Lleu<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Talysarn<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Brynaerau<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Bro Llifon<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Baladeulyn |
| Gweinidogion Cymru; | Gweinidogion Cymru; |
| Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Aelod Etholaeth y Senedd-Arfon<br>Siân Gwenllian AS<br><br>Aelodau Rhanbarthol y Senedd- Gogledd Cymru<br>Llyr Gruffydd AS<br>Mark Isherwood AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS<br><br>Aelod Etholaeth y Senedd Dwyfor-Meirionnydd<br>Mabon ap Gwynfor AS<br><br>Aelodau Rhanbarthol y Senedd- Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Cefin Campbell AS<br>Jane Dodds AS<br>Joyce Watson AS<br>Eluned Morgan AS |
| Estyn; | Owen Evans – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; NAHT; UCAC; ASCL; GMB; UNSAIN, UNITE |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol; | Adran Addysg, Cyngor Gwynedd |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Andy Dunbobbin - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei | Cyngor Cymuned Llanllyfni |

| | |
|---|---|
| gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin; | Cylch Meithrin Llanllyfni |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli; | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd<br>Mudiad Meithrin – Arbenigwyr Blynyddoedd Cynnar |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion; | Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; | Ysgol Dyffryn Nantlle |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | Comisiynydd y Gymraeg |
| Arall | Aelodau Etholedig Lleol yr ardal dan sylw<br>Mantell Gwynedd |

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo a bydd copïau caled ar gael ar gais o'r Swyddfa Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn cynnal "sesiynau galw heibio" er mwyn rhoi cyfle i Lywodraethwyr, staff, a rhieni ofyn cwestiynau a thrafod yr ymgynghoriad ymhellach.

Yn ogystal â chyflwyno sylwadau, byd modd i ymgyngoreion awgrymu opsiynau eraill drwy lenwi'r ffurflen ymateb.

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu hystyried gan y Cabinet, cyn gwneud penderfyniad ar y camau nesaf. Bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn penderfynu a ddylid parhau â'r cynnig ai peidio, ac a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 ac yn benodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', bydd modd i ymgyngoreion wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig (gweler adran 6), a gall ymgyngoreion hefyd awgrymu opsiynau eraill a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros y cynnig i gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, y mae'r Cyngor am geisio ymateb iddynt).

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd pecyn gwybodaeth gefndirol ar gael yn Ysgol Nebo, Ysgol Llanllyfni, Siop Gwynedd Caernarfon, ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo . Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd
- Pecyn Ystadegau (2025-26)
- Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned
- Adroddiad Asesu'r effaith ar bobl Gwynedd
- Adroddiad Asesiad o'r effaith debygol ar drefniadau teithio
- Adroddiad Asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Adroddiad Asesiad Llesiant
- Cyfarfodydd Lleol
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Chwefror 2025
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Hydref 2025

Os ydych yn dymuno derbyn y ddogfen hon ar ffurf wahanol, neu os oes gennych gwestiynau eraill am y cynnig, cysylltwch â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg ar 01286 679247.

## Ymgynghoriad gyda Phlant a Phobl Ifanc

Gwneir trefniadau hefyd i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion. Bydd sesiynau dynodedig yn cael eu cynnal gyda grŵp o ddysgwyr o'r ddwy ysgol – mae'r union drefniadau i'w cadarnhau. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo ynghyd â ffurflen ymateb/holiadur. Golygai hyn y gall plant a phobl ifanc sydd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

## Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad?

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein: www.gwynedd.llyw.cymru/FfurflenYmatebYsgolNebo

Neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb sydd wedi ei hatodi i'r ddogfen ymgynghori a'i dychwelyd i:

**E-bost:** moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Post:** Swyddfa Moderneiddio Addysg
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Nodyn** - Rhaid i bob ymateb, boed drwy'r post neu e-bost, gyrraedd Pencadlys y Cyngor erbyn **13:00 o'r gloch ar ddydd Gwener, 23 Ionawr 2026.**

# 3. Gwybodaeth Gefndirol

## 3.1. Sut y Datblygwyd y Cynnig

Ym mis Ionawr 2025, roedd y nifer o ddysgwyr yn mynychu Ysgol Nebo wedi lleihau i 10. Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, cymeradwywyd y Cabinet y penderfyniad a geisir, sef *"i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Gynradd Nebo gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgol."*

Erbyn mis Medi 2025, gwelwyd cynnydd bychan yn y nifer o ddysgwyr yn mynychu'r ysgol. Er hynny, roedd y niferoedd yn parhau'n isel gyda 11 dysgwr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6), ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin), a dengys rhagamcanion y byddai'r niferoedd yn parhau'n isel gyda rhagamcan o 10 dysgwr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr rhan amser (Meithrin) yn yr ysgol erbyn Medi 2028.

Cynhaliwyd tri chyfarfod lleol rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Datblygwyd y cynnig yn unol â chyflawni nod y strategaethau presennol. Cyflwynwyd y Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 2 Ebrill 2009. Derbyniwyd y strategaeth yn unfrydol gan y Cyngor ac mae'n amlinellu'r weledigaeth:

"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"

Defnyddiwyd ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd i'w mesur yn erbyn yr opsiynau. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn y ddogfen yma.

Yn ogystal, ystyriwyd y strategaethau a'r amcanion a ganlyn wrth ddatblygu'r cynnig:

- Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd
- Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2025, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu cychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

## 3.2 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Y Cod) yn cynnwys gweithdrefn arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau.

Fe nodir yn y Cod

*"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio."*

Mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. O ganlyniad, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig.


## 3.3 Panel Adolygu Ysgol Nebo

Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Nebo yn ystod Mawrth 2025 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2025, gyda'r olaf ar 14 Gorffennaf 2025. Roedd y PAY yn cynnwys pennaeth yr ysgol, llywodraethwyr, Aelod Lleol, rhieni, a staff.

Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Nebo er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr, a maint bychain y dosbarthiadau.

# 4. Trefniadau Presennol yn Ardal Nebo

Mae Ysgol Nebo wedi ei lleoli yn nalgylch uwchradd Ysgol Dyffryn Nantlle. Mae 6 ysgol gynradd gyfagos arall sydd a'u dalgylchoedd wedi eu lleoli o fewn dalgylch uwchradd Ysgol Dyffryn Nantlle, sef Ysgol Llanllyfni, Ysgol Bro Llifon, Ysgol Brynaerau, Ysgol Bro Lleu, Ysgol Talysarn ac Ysgol Baladeulyn.




**Lleoliadau ysgolion cynradd ardal Nebo**
**(Dalgylch Uwchradd Ysgol Dyffryn Nantlle)**

**Ysgolion sydd yn destun yr ymgynghoriad yma:**

## 4.1 Ysgol Nebo

- Mae Ysgol Nebo wedi ei lleoli ym mhentref Nebo.
- Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn ddysgwyr llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ym mis Medi 2025, roedd 11 o ddysgwyr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae 17% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo.
- Dau ddosbarth sydd yn yr ysgol.
- Mae Ysgol Nebo wedi ei lleoli yn ward Clynnog, ac mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhan o ward Clynnog a rhan o ward Llanllyfni. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 67.8% o boblogaeth ward Clynnog yn siaradwyr Cymraeg a 73.2% o boblogaeth ward Llanllyfni hefyd yn siaradwyr Cymraeg.
- Mae 50% o ddysgwyr yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD Ionawr 2025).
- Mae'r ysgol yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £70,694.
- Cost fesul dysgwr Ysgol Nebo yw £25,867 (2025-26), o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y dysgwr am yr un cyfnod yn £5,780.

## 4.2 Ysgol Llanllyfni

- Mae Ysgol Llanllyfni wedi'i lleoli ym mhentref Llanllyfni.
- Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn ddysgwyr llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ym mis Medi 2025, roedd 59 o ddysgwyr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6) ac 13 o ddysgwyr rhan amser (Meithrin) wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- Yn ôl data 2025, mae 74% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni yn byw o fewn dalgylch yr ysgol, 26% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni yn byw mewn dalgylch ysgol arall, gyda 6% o ddysgwyr yr ysgol yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo.
- Mae pedwar dosbarth yn yr ysgol.
- Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei lleoli yn ward Llanllyfni, ac mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhan o ward Clynnog a rhan o ward Llanllyfni. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 67.8% o siaradwyr Cymraeg yn ward Clynnog a 73.2% o siaradwyr Cymraeg yn ward Llanllyfni.
- Mae 80% o ddysgwyr yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD Ionawr 2025).

### Ysgolion Cynradd eraill cyfagos:

Er nad ydynt yn rhan o'r cynnig, darperir gwybodaeth am yr ysgolion isod, gan y gellid ei ystyried yn rhesymol y byddai'r dysgwyr yn dymuno trosglwyddo iddynt.

## 4.3 Ysgol Bro Llifon

- Mae Ysgol Bro Llifon wedi ei lleoli ym mhentref Groeslon, oddeutu pum milltir o Gaernarfon.
- Mae yna 134 (+15 meithrin) o ddysgwyr ar y gofrestr (Medi 2025).
- Mae 83% o ddysgwyr yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD 2025).

## 4.4 Ysgol Brynaerau

- Mae Ysgol Brynaerau wedi ei lleoli rhyw hanner milltir o bentref Pontllyfni, sydd ar y briffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli.
- Mae yna 53 (+6 meithrin) o ddysgwyr ar y gofrestr (Medi 2025).
- Mae 63% o ddysgwyr yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD 2025).

## 4.5 Ysgol Bro Lleu

- Mae Ysgol Bro Lleu wedi ei lleoli ym mhentref Penygroes, oddeutu wyth milltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd.
- Mae yna 167 (+25 meithrin) o ddysgwyr ar y gofrestr (Medi 2025).
- Mae 73% o ddysgwyr yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD 2025).

## 4.6 Ysgol Talysarn

- Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Talysarn, oddeutu naw milltir o Gaernarfon.
- Mae yna 84 (+17 meithrin) o ddysgwyr ar y gofrestr (Medi 2025).
- Mae 37% o ddysgwyr yn yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD 2025).

## 4.7 Ysgol Baladeulyn

- Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, oddeutu tair milltir o Benygroes.
- Mae yna 6 (+2 meithrin) o ddysgwyr ar y gofrestr (Medi 2025).
- Mae 55% o ddysgwyr yn yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (CYBLD 2025).

## 4.8 Categorïau Ysgolion

Mae ysgolion Gwynedd yn cael eu diffinio fel rhai Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir *(CWN)* neu Wirfoddol a Reolir *(CWR)*. Yn ychwanegol, gall ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a Gwirfoddol a Reolir gael eu dynodi gyda chymeriad crefyddol h.y. fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn ysgolion ‘Cymunedol’.

## 4.9 Crynodeb o Ystadegau’r Ysgolion:

| | | Nebo | | Llanllyfni | | Baladeulyn | | Bro Llifon | | Brynaerau | | Bro Lleu | | Talysarn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Caernarfon LL54 6EE | | Caernarfon LL54 6SH | | Caernarfon LL54 6BT | | Caernarfon LL54 7DT | | Caernarfon LL54 5EU | | Caernarfon LL54 6RL | | Caernarfon LL54 6HR | |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | | 3-11 | | 3-11 | | 3-11 | | 3-11 | | 3-11 | | 3-11 | |
| **Categori’r Ysgol Ysgol Gymuned [CS] Gwirfoddol dan Gymorth [CWN] Gwirfoddol dan Reolaeth [CWR]** | | Ysgol Gymuned | | Ysgol Gymuned | | Ysgol Gymuned | | Ysgol Gymuned | | Ysgol Gymuned | | Ysgol Gymuned | | Ysgol Gymuned | |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | |
| **Niferoedd dysgwyr ar y gofrestr – Medi 2025** | **Meithrin** | 1 | | 13 | | 2 | | 15 | | 6 | | 25 | | 17 | |
| | **Derbyn-Bl.6** | 11 | | 59 | | 6 | | 134 | | 53 | | 167 | | 84 | |
| | **Cyfanswm** | **12** | | **72** | | **8** | | **149** | | **59** | | **192** | | **101** | |
| **Nifer o ddysgwyr ar y gofrestr am y pum mlynedd blaenorol** | | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** |
| | **Medi 2020** | 0 | 15 | 7 | 67 | 1 | 21 | 20 | 142 | 6 | 55 | 22 | 174 | 15 | 89 |
| | **Medi 2021** | 2 | 15 | 6 | 64 | 0 | 17 | 14 | 143 | 7 | 54 | 21 | 178 | 16 | 87 |
| | **Medi 2022** | 0 | 11 | 10 | 62 | 2 | 18 | 21 | 141 | 9 | 53 | 24 | 167 | 14 | 96 |
| | **Medi 2023** | 3 | 12 | 13 | 57 | 2 | 15 | 16 | 133 | 8 | 56 | 25 | 175 | 10 | 88 |
| | **Medi 2024** | 0 | 8 | 11 | 65 | 0 | 13 | 22 | 126 | 4 | 57 | 21 | 171 | 10 | 86 |
| **Capasiti** | **Meithrin** | 7 | | 14 | | 7 | | 24 | | 10 | | 27 | | 13 | |
| | **Derbyn – Bl.6** | 51 | | 103 | | 55 | | 172 | | 71 | | 180 | | 91 | |
| | **Cyfanswm** | **58** | | **117** | | **62** | | **196** | | **81** | | **207** | | **104** | |

| **Llefydd Gweigion (Derbyn – Bl.6) Medi 2025** | | 40 | | 44 | | 49 | | 38 | | 18 | | 13 | | 7 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagamcanion Niferoedd dysgwyr** | | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn –Bl.6** |
| | Medi 2026 | 2 | 12 | 12 | 63 | 1 | 8 | 9 | 126 | 6 | 48 | 24 | 169 | 10 | 90 |
| | Medi 2027 | 2 | 11 | 12 | 66 | 1 | 8 | 6 | 115 | 6 | 45 | 24 | 173 | 11 | 89 |
| | Medi 2028 | 2 | 10 | 11 | 72 | 1 | 7 | 6 | 102 | 6 | 48 | 24 | 170 | 11 | 85 |
| | Medi 2029 | 2 | 11 | 12 | 78 | 1 | 8 | 7 | 94 | 6 | 45 | 24 | 170 | 11 | 81 |
| | Medi 2030 | 2 | 12 | 12 | 82 | 1 | 8 | 6 | 85 | 6 | 42 | 24 | 166 | 11 | 83 |
| **Data perfformiad Ysgolion (Estyn)** | | 5x Da (2017) | | 3x Da (2017) | | 5x Da (2017) | | 5x Da (2018) | | 5x Rhagorol (2019) | | *Fframwaith Arolygu newydd (2023)* | | 1x Rhagorol 2x Da (2017) | |
| **Categori Cyflwr Adeiladau (Criteria'r Cyngor) 2024-25** | | B | | B | | B | | A | | B | | B | | B | |
| **Dyraniad Cyllidol 2025-26** | | £206,936 | | £402,831 | | £194,391 | | £729,967 | | £372,811 | | £962,593 | | £521,659 | |
| **Cost y dysgwr 2025-26** | | £25,867 | | £5,768 | | £14,953 | | £5,380 | | £6,345 | | £5,341 | | £5,771 | |

# 5. Achos Dros Newid

## 5.1. Y Sefyllfa Bresennol

Mae’r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei wynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2025.

O ganlyniad i’r niferoedd isel presennol, mae’r ysgol mewn sefyllfa fregus ac wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** - Yn Ionawr 2025, roedd 10 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Nebo. Er bod y niferoedd wedi cynyddu ychydig ers hynny, mae’r niferoedd yn parhau yn isel gyda 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr ym Medi 2025.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gydag 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti’r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin – Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Nebo 46 (79%) o lefydd gweigion.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** –Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth, a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau’n isel dros y tair blynedd nesaf, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Yn ôl cyfrifiad Medi 2025 a gwybodaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Tachwedd 2025, dim ond 22% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo sy’n dewis mynychu’r ysgol. Mae 78% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i’r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i’r dyraniad arferol trwy’r polisi lleiafswm staffio (sy’n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £70,694.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn 2025-26 yw £25,867 o gymharu â’r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod yn £5,780

## 5.2. Niferoedd Dysgwyr a Rhagamcanion

Mae nifer dysgwyr yn ysgolion Gwynedd wedi amrywio ers 1975. Fodd bynnag, yn gyffredinol bu gostyngiad o oddeutu 27% yn nifer y dysgwyr ar draws y Sir. O ganlyniad, caiff adnoddau eu gwario bob blwyddyn ar gynnal a chadw adeiladau a systemau aneffeithlon yn hytrach nag ar addysg plant a phobl ifanc.

Mae'r tabl isod yn crynhoi niferoedd dysgwyr ysgolion yr ardal rhwng 1975 a 2025:

| Ysgol | Niferoedd [Meithrin – Bl.6 (3-11 oed)] | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1975 | 1980 | 1985 | 1990 | 1995 | 2000 | 2005 | 2010 | 2015 | 2020 | 2025 | 1975 - 2025 +/- | 1975 - 2025 % +/- |
| **Nebo** | 34 | 20 | 29 | 24 | 24 | 17 | 27 | 31 | 26 | 15 | 12 | -22 | -65% |
| **Llanllyfni** | 109 | 114 | 84 | 86 | 87 | 112 | 92 | 81 | 88 | 74 | 72 | -37 | -34% |
| **Baladeulyn** | 27 | 30 | 29 | 31 | 46 | 38 | 34 | 25 | 33 | 22 | 8 | -19 | -70% |
| **Bro Lleu** | 226 | 197 | 125 | 122 | 161 | 161 | 166 | 168 | 198 | 196 | 192 | -34 | -15% |
| **Bronyfoel** | 26 | 29 | 26 | 30 | 26 | 34 | 33 | 36 | - | - | - | - | - |
| **Carmel** | 49 | 55 | 41 | 51 | 33 | 68 | 56 | 53 | - | - | - | - | - |
| **Groeslon** | 107 | 96 | 97 | 84 | 95 | 92 | 93 | 85 | - | - | - | - | - |
| **Bro Llifon** | - | - | - | - | - | - | - | - | 131 | 162 | 149 | 18* | 14%* |
| **Brynaerau** | 66 | 70 | 38 | 47 | 41 | 41 | 73 | 73 | 66 | 61 | 59 | -7 | -11% |
| **Talysarn** | 138 | 117 | 101 | 94 | 90 | 84 | 71 | 77 | 93 | 104 | 101 | -37 | -27% |
| **Cyfanswm** | **782** | **728** | **570** | **569** | **603** | **647** | **645** | **629** | **635** | **634** | **593** | 189 | -24% |

*2015-2025

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Ysgolion Gwynedd*

Dengys y tabl uchod bod niferoedd dysgwyr cynradd wedi lleihau yn nalgylch Uwchradd Dyffryn Nantlle ers 1975. Mae lleihad o -65% wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo rhwng 1975 a 2025.

Dengys y tabl isod y boblogaeth bresennol o ddysgwyr yn yr ardal.

| Ysgol | Niferoedd (Medi 2025) | |
|---|---|---|
| | **Llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6)** | **Rhan amser (Meithrin)** |
| Nebo | 11 | 1 |
| Llanllyfni | 59 | 13 |
| Baladeulyn | 6 | 2 |
| Bro Lleu | 167 | 25 |
| Bro Llifon | 134 | 15 |
| Brynaerau | 53 | 6 |
| Talysarn | 84 | 17 |

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Medi 2025*

Dengys y tabl isod rhagamcanion yr ardal ar gyfer y 5 mlynedd nesaf (Derbyn-Blwyddyn 6):

| | Nebo | Llanllyfni | Baladeulyn | Bro Llifon | Brynaerau | Bro Lleu | Talysarn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Medi 2026** | 12 | 63 | 8 | 126 | 48 | 169 | 90 | 516 |
| **Medi 2027** | 11 | 66 | 8 | 115 | 45 | 173 | 89 | 507 |
| **Medi 2028** | 10 | 72 | 7 | 102 | 48 | 170 | 85 | 494 |
| **Medi 2029** | 11 | 78 | 8 | 94 | 45 | 170 | 81 | 487 |
| **Medi 2030** | 12 | 82 | 8 | 85 | 42 | 166 | 83 | 478 |

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Medi 2025*

## 5.3. Cryfderau a Gwendidau y Sefyllfa Bresennol

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Cadw presenoldeb ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nebo | Dosbarthiadau bychain gydag ystod oedran eang o hyd at 5 mlynedd. |
| Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 | Niferoedd isel o ddysgwyr a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y dysgwyr |
| Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch | Cost fesul dysgwyr uchel |
| Swyddi staff yr ysgol yn parhau (yn ddibynnol ar y dyraniad) | Rhagamcanion niferoedd yn dangos niferoedd yn parhau’n isel gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028 |
| | Canran o lefydd gweigion yn uchel |
| | Trefniadau dros dro sydd mewn lle ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol, gydag ansicrwydd ynglŷn a threfniadau parhaol yr arweinyddiaeth i'r dyfodol. |
| | Canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch |
| | Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol |
| | Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i’r dyraniad ariannol arferol trwy’r polisi lleiafswm staffio. |

Ar sail y wybodaeth yma, mae’r Adran Addysg o’r farn fod y gwendidau a nodwyd yn gorbwyso’r cryfderau, ac felly nad yw parhau gyda’r ddarpariaeth addysg bresennol yn Ysgol Nebo yn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Y prif resymau fod yr Adran Addysg o’r farn nad yw’n ymarferol i gadw’r ysgol yw:

- Dosbarthiadau bychain iawn ac amrediad oed eang o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y dysgwyr
- Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau’n isel gyda 10 o ddysgwyr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr erbyn Medi 2028.

# 6. Gwerthuso Opsiynau

Gyda mewnbwn aelodau Panel Adolygu Ysgol Nebo yn ystod y cyfarfodydd lleol, crëwyd rhestr hir o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau a gyflwynwyd gan ran-ddeiliaid Ysgol Nebo. Yr opsiynau hyn oedd:

| | |
|---|---|
| **Dim newid (*'Y Status Quo'*)** | Gwneud Dim. Parhau gyda'r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 2** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos |
| **Opsiwn 3** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo |
| **Opsiwn 4** | Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) |
| **Opsiwn 5** | Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes) |
| **Opsiwn 6** | Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant gydag anghenion dysgu ychwanegol |
| **Opsiwn 7** | Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle |
| **Opsiwn 8** | Sefydlu ysgol ar fwy nag un safle (Ysgol aml-safle) |

Bu i ystod eang o opsiynau gael eu hadnabod yn ystod y cyfarfodydd lleol a rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fel enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried wrth lunio'r cynnig ar gyfer ysgol wledig. Cafodd yr enghreifftiau canlynol eu hystyried yn ychwanegol i'r opsiynau a nodir yn y tabl uchod. Gwelir yr opsiynau hynny isod gyda sylwadau wedi eu hychwanegu atynt:

i. Clystyru, cydweithio ag ysgolion eraill - mae'r opsiwn o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos wedi ei gynnwys yn y gwerthusiad opsiynau.

ii. Defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol – yn dilyn ystyried yr opsiwn i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma yn cynnig datrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol, gan na fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel nodir yn adran 5.1). Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r heriau a nodir yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori, e.e. niferoedd isel o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain yn parhau, ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.

iii. Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal - mae'r opsiwn yma'n cael ei ystyried ymhellach yn y gwerthusiad opsiynau trwy'r opsiynau a ganlyn: (i) Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol (ii) Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle.

iv. Ystyried sefydlu ysgolion ar fwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau - ychwanegwyd yr opsiwn yma, sef sefydlu ysgol aml-safle, at y rhestr o opsiynau i'w hystyried yn dilyn y trydydd cyfarfod lleol, ac felly caiff ei ystyried yn y gwerthusiad opsiynau.

## 6.1 Cymharu Opsiynau

Cwblhawyd gwerthusiad o'r opsiynau er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau dan ystyriaeth. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill.

Yn unol â strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau, yn benodol:

i. Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran
ii. Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion
iii. Arweinyddiaeth a Staffio
iv. Y Gymuned
v. Adnoddau Ariannol
vi. Yr Iaith Gymraeg
vii. Ffactorau Daearyddol

Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn y tabl isod, ac mae casgliad y gwerthusiad o'r opsiynau unigol i'w gweld yn adran 6.3 isod.

**Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Nebo**
**Allwedd:** Glas - manteision    Coch - anfanteision    Du – sylwadau

| Ystyriaethau | Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa bresennol | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo | Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos, sef Ysgol Llanllyfni |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion** | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. | Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd y dysgwyr yr ysgol. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo.<br><br>Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel<br><br>(Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin).<br><br>Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau ac felly bydd llai o lefydd gweigion<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Mae niferoedd Ysgol Llanllyfni yn sefydlog gyda 59 o ddysgwyr Derbyn i Bl.6 ac 13 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Medi 2025).<br><br>Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth.<br>Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth.<br>Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth.<br>Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol, nac ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.<br><br>Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Llanllyfni yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o rhwng 18 a 22 o ddysgwyr ymhob dosbarth (Medi 2025).<br><br>Mae 3 dosbarth gydag oedrannau cymysg yn Ysgol Llanllyfni, ynghyd â dosbarth Meithrin. |
| **Adnoddau Ariannol** | Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.<br><br>Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,867 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780. | Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.<br><br>Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,867 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780 | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Nebo.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad.<br><br>Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY<br><br>Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. | Tynnu ysgol o'r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen.<br><br>Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol.<br><br>Mae'n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol. | Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,867 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol na ffederaleiddio yn ymateb i'r her ariannol yma. | |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned. | Mae strwythur staffio Ysgol Llanllyfni yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth a'n caniatáu mwy amser digyswllt i'r Pennaeth o'i gymharu ag Ysgol Nebo.<br><br>Byddai'n arwain at ddiswyddo staff yn Ysgol Nebo. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch<br><br>Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Uned ADY. | Bydd angen cynnig cludiant i ddysgwr dalgylch Ysgol Nebo.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent yn bresennol.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. |
| **Y Gymuned** | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo | Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo | Pentref Nebo yn colli ysgol.<br><br>Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng 2 cymuned cyfagos. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg | Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg | Dim newid – mae'r 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg | Dim newid – mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol cyfrwng Cymraeg |
| **Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig gan ran-ddeiliaid yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2** | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo<br>• Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth<br>• Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder<br>• Ystod oedran eang yn gyfle i weithio gyda'u cyfoedion (helpu ei gilydd)<br>• Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned. | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo<br>• Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth<br>• Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned. | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo<br>• Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth<br>• Grantiau ychwanegol i gyfarch gwelliannau ar gyfer dysgwyr gydag ADY<br>• Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned. | **Gwendidau:**<br>• Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy<br>• Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn mae Ysgol Nebo yn ei gynnig i gefnogi iechyd a lles<br>• Effaith negyddol ar les y dysgwyr presennol sydd yn Ysgol Nebo |

| Ystyriaethau | Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes) | Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol | Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle | Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion** | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys Uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel<br><br>(Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin).<br><br>Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau ac felly bydd llai o lefydd gweigion<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf. | Gan y byddai angen addasu'r adeilad er mwyn cynnig lleoliad addas i'r Ganolfan Iaith, mi fydd capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly byddai lleihad yn y nifer o lefydd gweigion<br><br>Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf. | Gydag ond 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6, ac 1 dysgwr oed Meithrin yn mynychu Ysgol Nebo (Medi 2025), rhagwelir na fyddai sefydlu ysgol aml-safle yn arwain at gynnydd yn niferoedd safle Ysgol Nebo.<br><br>Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai'r nifer fawr o lefydd gweigion, sef lle i 46 o ddysgwyr (79%), yn parhau.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau' n isel dros y blynyddoedd nesaf. |
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth.<br>Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. | Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau'n isel.<br><br>Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn | Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.<br><br>Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn | Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau ar safle Ysgol Nebo yn parhau'n fach, gydag amrediad oedran eang. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. | |
| **Adnoddau Ariannol** | Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.<br><br>Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,867 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780. | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Nebo.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad.<br><br>Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY.<br><br>Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,867 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma. | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned Iaith yn Ysgol Nebo.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad.<br><br>Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Ganolfan Iaith.<br><br>Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,867 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli Canolfan Iaith ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma. | Bydd uno ysgolion yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Nebo yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr safle Nebo yn parhau i fod yn isel. |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. | Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. | Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. | Byddai yna resymoli arweinyddiaeth yn yr opsiwn yma, ond gan na fyddai yna effaith ar niferoedd dysgwyr y safleoedd, byddai strwythur staffio presennol Ysgol Nebo yn parhau, gyda phennaeth safle (yn hytrach na phennaeth) a chymhorthydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned. | Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned. | |
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch<br><br>Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Uned ADY. | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch<br><br>Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Ganolfan Iaith. | Safle ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch<br><br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng safleoedd ysgolion. |
| **Y Gymuned** | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo | Cadw safle ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo<br><br>Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau cyfagos.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd darpariaeth addysg ar safle Nebo |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg | Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg | Dim newid – dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg | Dim newid - Rhagwelir y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol. |
| **Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2** | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo<br>• Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo<br>• Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Maint dosbarthiadau bychain<br>• Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder<br>• Model unigryw sydd yn gyfle i ddysgu mewn amgylchedd awyr agored<br>• Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr<br>• Potensial i wella iechyd a lles<br>• Cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru<br>• Ysgolion eraill ledled Gwynedd yn manteisio o'r cynnig<br>• Potensial i ddatblygu cyfleuster sydd ar agor i'r cyhoedd tu allan i oriau ysgol - fyddai'n cynhyrchu incwm - cysylltu â chynlluniau adfywio'r ardal leol<br>• Llawer o fanteision i ddysgu awyr agored gan gynnwys (i) cefnogi datblygiad holistaidd ac academaidd (ii) cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol (iii) codi lles meddyliol (hybu cynhwysiant, cydraddoldeb, a dysgu gwell. | • Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder<br>• Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr<br>• Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned<br>• Uwch-sgilio staff presennol Ysgol Nebo<br>• Codi iechyd a lles dysgwyr<br>• Cynyddu cyfleoedd addysgol i bobl ifanc gymryd rhan yn llawn yn yr ysgol<br>• Mae niferoedd dosbarth llai yn hwyluso sylw a chynnydd addysgol wedi'i bersonoli<br>• Lleddfu pwysau ar ysgolion eraill sy'n cael trafferth diwallu anghenion dysgwyr ledled y sir<br>• Cost gymharol is o'i gymharu â chefnogi pobl ifanc mewn darpariaeth arbenigol<br>• Mae adnoddau ysgol a chymunedol yn parhau ar agor<br>• Ysgol o fewn pellter rhesymol o gartrefi dysgwyr yn nalgylch Dyffryn Nantlle gyfan. Hefyd yn eithaf canolog i ddalgylchoedd eraill cyfagos<br>• Dysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 mewn ysgol fach sy'n arwain at gaffael iaith yn hyderus.<br>• Llai o achosion o ymddygiadau negyddol fel bwlio, oherwydd ethos teuluol cryf, a phresenoldeb staff addysgu mewn amseroedd cymdeithasol megis amser cinio ac amser chwarae | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Yn cysylltu â chynllunio strategol ar lefel y cyngor i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y briff ffrwd, fel y nodwyd yng nghyfarfod Craffu Addysg a'r Economi ar 10 Ebrill 2025<br>• Arbedion ariannol cyffredinol o'i gymharu â chymorth 1:1 mewn darpariaeth arbenigol<br>• Mae darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn gynnar yn lleihau costau yn y dyfodol a dibyniaeth ar wasanaeth eraill sydd yn y pen draw yn ddrytach<br>• Mae dosbarthiadau oedran cymysg yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gwell<br>• Dim gwariant sylweddol ar hyfforddi staff<br>• Cyfle cyffrous i Gyngor Gwynedd arwain ar brosiect<br>lles arloesol y gellir ei gyflwyno i ardaloedd eraill fel enghraifft o arfer enghreifftiol.<br>• Potensial i gysylltu ag adran ymchwil ym Mhrifysgol Bangor i recriwtio myfyriwr PhD i ymgymryd â darn o ymchwil i amlygu llwyddiant y prosiect e.e. Cheme Prosiect yn mesur enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad<br>• Potensial i'w gyflwyno fel ateb sy'n adfywio nid yn unig Ysgol Nebo ond ysgolion bach eraill ar draws y sir ond hefyd Cymru gyfan<br>• Gweithio ar y cyd ag asiantaethau cymorth fel CAMHS a chwnselwyr ysgol i ddarparu therapïau – i gefnogi pobl ifanc a rhieni fel ei gilydd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Mae darpariaeth effeithiol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn lleihau nifer y teuluoedd sy'n dewis dadgofrestru eu plant, ac mae ganddi'r potensial i leihau'r duedd o gynyddu'r niferoedd ar y gofrestr Addysg Gartref Ddewisol<br>• Mwy o ddefnydd o adeilad<br>**Anfanteision:**<br>• Trefniadau cludiant | | |

## 6.2 Asesiadau Effaith – Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n ofynnol hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas â chynnig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod o'r opsiynau o dan ystyriaeth. Mae'r asesiadau llawn ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo , ac mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w gweld yn y tabl isod:

| Opsiwn | Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | Niwtral – Dim newid | Niwtral – Dim newid<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' | Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. | |
| **Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos** | Rhannol bositif<br><br>Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo<br><br>Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni. | Negyddol<br><br>Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.<br><br>Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, £17,000-£30,000 y flwyddyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral/Rhannol Negyddol<br><br>Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Defnydd cymunedol helaeth o adeilad Ysgol Nebo gan y gymuned.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol.<br><br>Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes |
| **Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)** | Niwtral<br><br>Rhagwelir y byddai safon yr addysg yn Ysgol Nebo yn parhau, ond gan nad oes model cyffelyb yn bodoli yn y cynradd o ran safle arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol, nid oes modd asesu ei effaith yn erbyn ansawdd addysg, felly niwtral yw'r effaith. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Byddai ystyriaethau teithio ehangach petai safle Ysgol Nebo yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau. | |
| **Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol** | Niwtral/Rhannol bositif<br><br>Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle** | Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith. | Niwtral –<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo** | Niwtral/ Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Nebo a byddai | Niwtral – dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion | adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |

## 6.3 Casgliadau'r gwerthusiad o'r opsiynau

Mae'r adran yma'n nodi casgliadau'r gwerthusiad opsiynau, gan nodi'r rhesymau dros wrthod neu ffafrio'r opsiwn dan sylw.

### Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r opsiwn yma'n golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Nebo.

<u>Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:</u>

Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n cyfarch yr heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol, a nodir yn adran 5, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Byddai niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel (11 Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 Meithrin) a byddai llefydd gweigion sylweddol (78%) yn parhau yn Ysgol Nebo. Rhagamcanion niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn - Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 bu i Ysgol Nebo dderbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,867) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n gwneud dim i ymateb i'r her yma.

## Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd y gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Wrth ystyried yr opsiwn hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut y byddai'r holl ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr, rhagwelwyd nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Nebo.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

<u>Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:</u>

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision o ffedereiddio, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod), gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn golygu fod yr her o niferoedd dysgwyr isel (11 Derbyn – Bl.6 ac 1 Meithrin) a llefydd gweigion sylweddol (78%) yn Ysgol Nebo yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang- Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn - Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai ffedereiddio yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai ffederaleiddio yn ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,867) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Nebo, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Gan y byddai adeilad Ysgol Nebo yn parhau, ni fyddai ffedereiddio yn ymateb i'r her yma.

## Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Wrth ystyried y opsiwn yma, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut y byddai'r holl ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr, rhagwelir na fyddai manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Nebo ac ychwanegu uned ADY ar safle Ysgol Nebo.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY. Noder na fyddai ychwanegu uned ADY yn effeithio ar niferoedd Ysgol Nebo, gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol. Gan y byddai'r uned ADY wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Nebo, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad yng nghapasiti'r ysgol, ac o ganlyniad, lleihad yn niferoedd llefydd gweigion Ysgol Nebo.

<u>Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:</u>

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision o ffedereiddio a lleoli uned ADY ar safle Ysgol Nebo, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod), gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion - Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned ADY o fewn adeilad Ysgol Nebo, gan nad oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo yn parhau pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn - Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.

- Adnoddau ariannol - Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,867) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Nebo. Rhagwelir y gall lleoli Uned ADY ar y safle o bosib gwrthbwyso rhywfaint ar gostau cynnal adeilad yr ysgol. Serch hynny, o safbwynt dyraniad craidd yr ysgol, pe byddai Ysgol Nebo yn ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac Uned ADY yn cael ei lleoli ar y safle yn ogystal, gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Gallai lleoli Uned ADY o fewn adeilad Ysgol Nebo wrthbwyso costau cynnal a chadw'r ysgol yn rhannol. Fodd bynnag, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r her yma.

## Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

Byddai'r opsiwn yma yn golygu cau Ysgol Nebo a symud y dysgwyr i'w haddysgu yn Ysgol Llanllyfni. Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau, a chanlyniad y gwerthusiad hwnnw oedd na fyddai opsiwn arall yn dod i'r afael a'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Manylir y cynnig yma ymhellach yn y ddogfen.

Ystyrir Ysgol Llanllyfni fel yr 'ysgol gyfagos' gan mae hi yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Nebo. Mae'r ysgol wedi ei lleoli rhyw 1.6 milltir o safle Ysgol Llanllyfni.

Mae Ysgol Llanllyfni hefyd yn cynnig ei hun fel yr opsiwn amlwg ar gyfer yr ysgol amgen gan fod 44% o blant oed cynradd dalgylch Ysgol Nebo (Meithrin – Blwyddyn 6) eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni ac mae capasiti digonol yno i dderbyn dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo.

Yn dilyn hyn, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Llanllyfni i gynnwys dalgylch Ysgol Nebo ar gyfer y dyfodol.

## Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ac yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol.

Mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gydag 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo.

<u>Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:</u>

Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod), gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Byddai niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel (11 Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 Meithrin) a byddai llefydd gweigion sylweddol (78%) yn parhau yn Ysgol Nebo. Rhagamcanion niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn - Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,867) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na fyddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

## Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol

Cynigiwyd yr opsiwn yma yn ystod y trafodaethau lleol. Yn benodol, bu i'r Corff Llywodraethol gynnig yr opsiwn a ganlyn:

*"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."*

Dehonglwyd yr opsiwn yma fel y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig darpariaeth ADY i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Nebo yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod).

<u>Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:</u>

Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod), gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned ADY o fewn adeilad Ysgol Nebo, gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle'r ysgol yn effeithio ar niferoedd Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r niferoedd yn parhau'n isel.

- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn - Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau'n fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,867) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

## Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned/canolfan iaith, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned/ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle'r ysgol yn effeithio ar niferoedd Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Nebo yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu, fel nodir yn adran 5 (uchod).

<u>Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:</u>

Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod), gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned/canolfan iaith o fewn adeilad Ysgol Nebo, gan y byddai dysgwyr yr uned iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle'r ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn - Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,867) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

## Sefydlu ysgol aml-safle, gan barhau efo safle Ysgol Nebo

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nebo trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu (newydd) yn cael ei ffurfio ar gyfer yr ysgol aml-safle.

O dan yr opsiwn hwn, byddai goblygiadau staffio a all arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. Byddai swyddi pob aelod o staff ym mhob un o'r ysgolion fyddai'n ffurfio rhan o'r ysgol aml-safle yn dod i ben. Byddai'r penodiadau newydd yn cael eu gwneud gan gorff llywodraethu cysgodol yr ysgol aml-safle newydd.

Mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gydag 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr ar safle Ysgol Nebo.

Casgliad – Rhesymau dros wrthod yr opsiwn:

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5 (uchod), gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion - Rhagwelir y byddai niferoedd dysgwyr ar safle Ysgol Nebo yn parhau'n isel (11 Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 Meithrin) ynghyd â llefydd gweigion sylweddol (78%).
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr ar safle Ysgol Nebo, mae'n debygol y byddai dosbarthiadau bach yn parhau yn safle Nebo gydag ystod oedran eang o fewn y dosbarthiadau.
- Adnoddau ariannol – Byddai sefydlu ysgol aml-safle yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr safle Ysgol Nebo yn parhau i fod yn isel.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn ymateb i'r her yma.

# 7. Y Cynnig

## Crynodeb o'r Cynnig

Yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau, y cyfeiriad a ffafrir a'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad statudol hwn yw cau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a'r dysgwyr i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanllyfni, sef yr 'Ysgol amgen', o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Amgen** | Ysgol Llanllyfni | |
| **Ystod oedran** | 3-11 | |
| **Categori'r ysgol (cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir)** | Cymunedol | |
| **Categori Iaith** | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 | |
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Rhagfyr 2026 - 1 Ionawr 2027 | |
| **Niferoedd a ragwelir – Ionawr 2027 (Rhagamcanion ar gyfer Medi 2026)** | *Meithrin*<br>14 | *Derbyn – Bl.6*<br>75 |
| **Capasiti (yn seiliedig ar Gylchlythyr Llywodraethwyr Cynulliad Cymru 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)** | *Meithrin*<br>14 | *Derbyn – Bl.6*<br>103 |
| **Ansawdd yr adeilad a'r ystafelloedd dosbarth (Categori Cyflwr Adeilad)** | B | |

Yn bresennol statws cymunedol sydd gan Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, ar sail hyn oll, cynigir, yn nhermau categori cyfreithiol, mai statws 'gymunedol' yw'r opsiwn ar gyfer yr ymgynghoriad statudol.

Fel gyda phob sefyllfa debyg, mae gan rieni'r hawl i ddewis lleoliad amgen ar gyfer eu plant os ydynt yn dymuno.

Mi fyddai'r opsiwn yma'n golygu y byddwn yn:

a) Lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion
b) Cynnig profiadau i ddysgwyr i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion
c) Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas
d) Lleihau'r amrediad o lwfans y dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

Ceir rhai o'r rhesymau pam mai'r opsiwn hwn yw'r opsiwn a ffafrir a pham mai hwn sy'n destun y cyfnod ymgynghori statudol yn yr adran hon.

## 7.1. Rheswm dros y Cynnig

Y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol yw'r angen i gyfarch sefyllfa fregus yr ysgol. Y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu yw bod sefyllfa argyfyngus o safbwynt niferoedd isel gyda 11 dysgwr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2025, a dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn y blynyddoedd sydd i ddod gyda rhagamcan o 10 dysgwr llawn amser (Derbyn - Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr erbyn Medi 2028. Mae dysgwyr yr ysgol cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth - un dosbarth o 5 (+ 1 Meithrin) ac un dosbarth o 6 o ddysgwyr.

## 7.2 Ansawdd yr Addysg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Un o'r blaenoriaethau yw i ddarparu'r profiadau dysgu gorau bosibl ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wellau safonau.

Mae arweinyddiaeth, llywodraethu da a strwythur rheoli yn ffactorau allweddol o ran cael ysgolion sy'n tanberfformio i wella eu perfformiad yn y pen draw.

Dylid nodi nad pryder ynghylch ansawdd yr addysg bresennol yn Ysgol Nebo sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Yn wir, oherwydd cymhareb isel o ddysgwr i athro, mae'r plant yn gwneud cynnydd da. Serch hynny, mae'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu o niferoedd isel a dosbarthiadau o niferoedd bychain, yn golygu bod yna gyfyngiadau ar allu'r ysgol i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr feithrin a manteisio ar brofiadau allgyrsiol, cymdeithasol, a'r gallu i gydweithio gyda pharau a grwpiau o gyfoedion yn y dosbarth yn unol â gofynion y cwricwlwm.

### 7.2.1. Crynodeb o adroddiadau Estyn:

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Blwyddyn yr arolwg</th><th>Safonau</th><th>Lles ac agweddau at ddysgu</th><th>Addysgu a phrofiadau dysgu</th><th>Gofal, cymorth ac arweiniad</th><th>Arweinyddiaeth a rheolaeth</th></tr>
<tr><td>Nebo</td><td>2017</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td colspan="2">Pa mor dda yw'r deilliannau?</td><td colspan="2">Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</td><td>Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</td></tr>
<tr><td>Llanllyfni</td><td>2017</td><td colspan="2">Da</td><td colspan="2">Da</td><td>Da</td></tr>
</table>

*Ffynhonnell: Gwefan Estyn*

### 7.2.2. Ansawdd yr Addysg a Safonau yn y Ddwy Ysgol sydd yn Rhan o'r Ymgynghoriad:

Mae adroddiadau arolygon Estyn yn nodi bod safon darpariaeth addysg y ddwy ysgol yn dda.

Cafodd Ysgol Nebo ei harolygu diwethaf ym mis Hydref 2017, ble daethpwyd fod perfformiad presennol yr ysgol Dda.

Bu i Ysgol Llanllyfni gael ei harolygu diwethaf ym mis Hydref 2025, bydd canlyniad yr arolwg diweddaraf yn cael ei ryddhau yn Rhagfyr 2025. Nodir yn adroddiad arolwg Mawrth 2017 Ysgol Llanllyfni fod perfformiad presennol yr ysgol yn Dda.

Cynigir yr ysgol amgen addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, a fyddai'n galluogi'r dysgwyr i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

_Ysgol Nebo_

Yn ystod yr arolwg diwethaf gan Estyn yn 2017, nodwyd bod perfformiad Ysgol Nebo yn Dda. Fe nodir yn adroddiad Estyn:

*“Wrth i’r disgyblion symud drwy’r ysgol, mae bron pob un, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog tu mewn a thu allan i’r ysgol. Maent yn dangos agwedd bositif iawn tuag at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â’u tasgau yn arbennig o dda.”*

Yn ogystal, nodai Estyn fod staff yn meithrin perthynas waith arbennig gyda’r dysgwyr gan gynllunio gweithgareddau diddorol sy’n sbarduno dysgwyr i weithio’n galed. Nodir fod y pennaeth yn darparu “*arweinyddiaeth gadarn sy’n sicrhau cyfeiriad strategol clir i’r ysgol*” a’r holl staff yn *“ ymroddedig a brwdfrydig ac yn gweithio’n agos fel tîm*”. Nodir fod gan y llywodraethwyr “*ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach*” ac yn “*defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.*”

_Ysgol Llanllyfni_
Yn ystod yr arolwg yn 2017, nodwyd fod perfformiad yr ysgol yn Dda. Fe nodir yn adroddiad Estyn bod:

- “rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu hamser yno
- medrau llafar a gwrando y rhan fwyaf o’r disgyblion yn dda
- medrau darllen ac ysgrifennu y rhan fwyaf o’r disgyblion yn dda yn y ddwy iaith
- dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda
- aelodau’r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac mae eu penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion
- disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais a gofalgar
- cydweithio effeithiol iawn yn bodoli rhwng athrawon a’r staff cymorth dysgu sy’n llwyddo i ddarparu cefnogaeth gyfoethog i ddisgyblion
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau”

Yn ogystal nodwyd fod gan y pennaeth “weledigaeth gadarn i hyrwyddo lles disgyblion a chreu ethos cynhaliol ar eu cyfer. Mae wedi llwyddo i rannu hyn yn llwyddiannus ymhlith y staff, y llywodraethwyr a’r rhieni… O ganlyniad, mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy”

_Asesiad o’r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg:_

Cynhaliwyd asesiad o’r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar yr holl opsiynau a ystyriwyd gan y Cyngor. Mae copi o’r adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo.

Dengys yn y tabl isod yr effaith debygol y cynnig ar bum maes arolygu perthnasol Estyn (o fis Medi 20 17) yn ogystal a ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion:

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o'r effaith a'r gwaith** |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Llanllyfni hefyd yn 'Dda'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Nebo ac yn Ysgol Llanllyfni yn 'Dda' yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a chyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni. | Positif |
| Gofal, cymorth ac arweiniad / Arweiniad a chymorth gofal | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolwg diwethaf yn 2017. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith niwtral. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf fod arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith niwtral o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd.<br>Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn.<br>O ganlyniad, gan y byddai'r dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol gyda nifer uwch o ddysgwyr, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn. | Positif |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo yn Ysgol Llanllyfni. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Nebo, fan lleiaf. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Nebo 2017, ac Ysgol Llanllyfni 2017.*

Dengys yr asesiad uchod o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg, y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith bositif, neu effaith niwtral ar y lleiaf.

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiadau uchod a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.

O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral/rhannol bositif fyddai'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith ar ddarpariaeth y cwricwlwm llawn gan gynnwys y cyfnod sylfaen gan fod Ysgol Llanllyfni eisoes yn darparu addysg yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn bresennol.

## 7.3 Maint Dosbarthiadau ac Ystod Oedran Priodol

Ein disgwyliad yw y bydd dosbarthiadau o faint priodol mewn ysgolion cynradd, cyn belled ag y bo modd, fel bod plant o fewn y sir yn derbyn y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl.

Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gael maint dosbarthiadau addas, gyda dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd. Mae'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau hefyd yn rheswm dros sicrhau darpariaeth addas ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Medi 2025, roedd dysgwyr Ysgol Nebo yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – un dosbarth o 6 (Meithrin – Blwyddyn 3), ac un dosbarth o 6 (Blwyddyn 4 – Blwyddyn 6).

Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Llanllyfni ym Medi 2025 yw 18.

Dengys y tabl isod beth yw maint dosbarthiadau presennol Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr Ysgol Nebo yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran sy'n rhychwantu hyd at bum ystod oedran.

| Ysgol | Meithrin | Derbyn | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl.3 | Bl.4 | Bl.5 | Bl.6 | Cyfanswm | Nifer y dosbarthiadau | Dosbarth mwyaf | Dosbarth lleiaf | Maint dosbarth ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nebo** | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | 0 | 12 | 2 | 6 | 6 | 6 |
| **Llanllyfni** | 13 | 12 | 10 | 8 | 5 | 6 | 9 | 9 | 72 | 4 | 22 | 13 | 18 |

*Ffynhonnell: Data Medi 2025*

Drwy symud ymlaen i gau Ysgol Nebo, a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni, byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Mater i Lywodraethwyr Ysgol Llanllyfni fyddai i benderfynu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.

## 7.4 Niferoedd Dysgwyr

Mae'r rhagamcanion diweddaraf, yn seiliedig ar gyfrifiad Medi 2025, yn dangos y bydd niferoedd Ysgol Nebo yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, fel y dengys yn y tabl isod:

**Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Nebo**

| | | | | | | | | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **M** | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Meithrin** | **Derbyn – Bl.6** |
| Medi 2025 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | 0 | **1** | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2026 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | **2** | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2027 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 3 | **2** | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2028 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | **2** | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2029 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | **2** | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2030 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | **2** | **12** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2025 (Amcangyfrif 2029-2030 wedi eu llunio gan yr ALl ar sail cyfrifiad Medi 2025)*

Dengys y tabl isod y rhagolygon ar gyfer yr ardal petai'r cynnig yn cael ei weithredu:

| Derbyn – Bl.6 | Ysgol Llanllyfni | Ysgol Bro Llifon | Ysgol Brynaerau | Ysgol Bro Lleu | Ysgol Talysarn | Ysgol Baladeulyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2025 | 59 | 134 | 53 | 167 | 84 | 6 | 503 |
| Amcangyfrif Medi 2026 | 63 | 126 | 48 | 169 | 90 | 8 | 504 |
| Amcangyfrif Medi 2027 | 77 | 115 | 45 | 173 | 89 | 8 | 507 |
| Amcangyfrif Medi 2028 | 82 | 102 | 48 | 170 | 85 | 7 | 494 |
| Amcangyfrif Medi 2029 | 89 | 94 | 45 | 170 | 81 | 8 | 487 |
| Amcangyfrif Medi 2030 | 94 | 85 | 42 | 166 | 83 | 8 | 478 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2025 (Amcangyfrif 2029-2030 wedi eu llunio gan yr ALl ar sail cyfrifiad Medi 2025)*

### 7.4.1. Llefydd Gweigion

Mae gan Ysgol Nebo 40 (78%) o lefydd gweigion yn yr ysgol (Derbyn – Blwyddyn 6). Mae 44 (43%) o lefydd gweigion yn Ysgol Llanllyfni. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin y ddwy ysgol, mae gan Ysgol Nebo 46 (79%) o lefydd gweigion ac Ysgol Llanllyfni 45 (38%) o lefydd gweigion.

Mae 59 o ddysgwyr Derbyn - Blwyddyn 6, ac 13 o ddysgwyr Meithrin yn mynychu Ysgol Llanllyfni yn bresennol. Dengys rhagamcanion Ysgol Llanllyfni y bydd 72 o ddysgwyr Derbyn - Blwyddyn 6, ac 11 o ddysgwyr blwyddyn Meithrin yn yr ysgol ym Medi 2028. Mae niferoedd yn Ysgol Llanllyfni yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Gyda 44 o lefydd gweigion (ac 1 lle gwag ar gyfer y Meithrin), mae gan Ysgol Llanllyfni ddigon o gapasiti ar gyfer niferoedd presennol y ddwy ysgol, ac am y tair blynedd nesaf.

Wrth ystyried capasiti Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni ar y cyd (sef capasiti o 154 Derbyn i Bl.6 a 175 Meithrin – Bl.6), rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr y dalgylch i Ysgol Llanllyfni yn lleihau'r cyfanswm nifer o lefydd gweigion yn ardal dalgylch Ysgol Nebo ac ardal dalgylch Ysgol Llanllyfni o 84 (55%) i 33 (32%) (Derbyn – Bl.6), ac o 91 (52%) i 33 (28%) wrth ystyried niferoedd a capasiti'r Meithrin.

## 7.5 Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad cryf mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau yn barhaus. Mae'r camau canlynol ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd ar gyfer y dyfodol:

- Cefnogi ysgolion i gydweithio mewn partneriaeth gydweithredol er mwyn datblygu cyfundrefn sy'n hunan wella
- Cefnogi ysgolion i gydweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eu clwstwr er mwyn rhannu'r arferion gorau
- Ysgolion i gydweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn grymuso arweinyddiaeth ar bob haen o fewn ein hysgolion
- Annog darpar arweinwyr i ennill cymhwyster CPCP
- Annog darpar arweinwyr i ymrwymo i Raglen Arweinwyr y Dyfodol er mwyn sicrhau olyniaeth arweinyddiaeth o fewn ein hysgolion.

Ein gobaith yw y bydd penaethiaid yn cael digon o gyfle i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol ar gyfer eu hysgolion.  Hefyd rydym yn disgwyl i gyrff llywodraethol arwain ysgolion yn effeithlon o fewn eu cyllidebau er budd y dysgwyr. Byddwn yn disgwyl i ysgolion fod a'r staff gorau ar gyfer darparu addysg o'r ansawdd orau.

Mae gan Ysgol Llanllyfni bennaeth parhaol. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 50% o'r amser (2.5 diwrnod) ac yn derbyn 2.5 diwrnod di gyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth. Yn ogystal â phennaeth llawn amser, mae Ysgol Llanllyfni yn cyflogi  2 athro/athrawes llawn amser, 1 athro/athrawes rhan amser, 3 cymhorthydd, swyddog clerigol rhan amser, a goruchwyliwr amser cinio rhan amser.

Yn ogystal, nodir yn adroddiad Estyn (2017) fod Corff Llywodraethu Ysgol Llanllyfni yn *"yn gydwybodol ac ymroddgar. Mae gweithgareddau fel arsylwi gwersi'n darparu cyfleoedd defnyddiol i godi eu hymwybyddiaeth o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth."*

Ar hyn o bryd, nid oes pennaeth parhaol gan Ysgol Nebo. Yn hytrach, mae Ysgol Nebo yn cyflogi pennaeth strategol rhan amser (cyfwerth a 0.2 llawn amser) athrawes gynradd llawn amser, 2 gymhorthydd, goruchwyliwr amser cinio a chlerc llywodraethwyr. Hyd at bedwar diwrnod yr wythnos, mae'r athrawes gynradd yn arddel rôl pennaeth mewn gofal, ac mae ganddi ymrwymiad dysgu cyfwerth a 4.5 diwrnod.

Yn sgil y ffaith mai trefniadau dros dro sydd mewn lle ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol, ac nad oes sicrwydd ynglŷn â threfniadau parhaol yr arweinyddiaeth i'r dyfodol, mae sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo wedi bod yn un o'r ystyriaethau ar gyfer newid.

### 7.5.1. Effaith ar Reolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae angen sicrhau amodau gwaith sy'n galluogi penaethiaid i sefydlu awyrgylch cynhyrchiol a phositif er mwyn i ddysgwyr gyrraedd eu potensial. Yn ogystal, mae penaethiaid yn gyfrifol am osod diwylliant o welliannau parhaus sy'n cael eu gwerthuso ac sy'n cynnig cymorth i athrawon a rheolwyr canol eraill yn eu hysgolion. Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu sector cynradd yw'r ffaith nad oes gan benaethiaid amser digonol i arwain mewn ysgolion bach iawn, a bod angen ar adegau addysgu ystod eang o blant o wahanol oedrannau a galluoedd yn yr un dosbarth. Mae Estyn (2013) yn nodi:

*"Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant."*

Gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm trwy sefydlu timau rheoli canol ac arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Yn ogystal, gellir canoli nifer o gyfrifoldebau megis rhai yn ymwneud a'r cwricwlwm a materion rheolaethol, sy'n gallu bod yn faich i sefydliadau bach, e.e. trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu, rheoli perfformiad. Mae'n fwy o her i ysgolion llai i fedru creu rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol ynghyd a chynnig cyfleoedd teg i staff ddatblygu arbenigaeth pwnc a rhannu ymarfer da gyda chyfoedion.

### 7.5.2. Llywodraethu a Materion Staffio

*Corff Llywodraethu*

Petai'r cynnig i gau Ysgol Nebo ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn cael ei weithredu, pe byddai Ysgol Nebo yn cau ar y 31 Rhagfyr 2026, byddai'n golygu y byddai corff llywodraethu Ysgol Nebo yn cael ei diddymu.

Ni ragwelir unrhyw newid i gorff llywodraethu presennol Ysgol Llanllyfni.

*Goblygiadau Staffio*

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan fyddai'r swyddi yn dod i ben pan mae'r ysgolion yn cau. Ymgynghorir yn benodol a staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith gyflogaeth angenrheidiol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.

Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhelir sesiwn galw heibio lle fydd staff o Wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol os yw unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Bydd croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.

## 7.6 Darpariaeth Feithrin a Blynyddoedd Cynnar

Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn darparu addysg ar gyfer plant 3-11 oed. Darperir lle meithrin rhan amser (10 awr yr wythnos) yn y ddwy ysgol i blant yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd am flwyddyn ysgol lawn.

**Niferoedd, rhagamcanion a chapasiti dosbarth Meithrin yn y ddwy ysgol:**

| Ysgol | Capasiti | Niferoedd Medi 2025 | Rhagamcanion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Medi 2026 | Medi 2027 | Medi 2028 | Medi 2029 | Medi 2030 |
| Nebo | 7 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Llanllyfni | 14 | 13 | 12 | 12 | 11 | 12 | 12 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2025

Mae 1 lle gwag yn y dosbarth meithrin yn Ysgol Llanllyfni. Rhagwelir felly bod nifer digonol o lefydd meithrin yn yr ysgol amgen, sef Ysgol Llanllyfni pe gweithredir y cynnig. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg, Categori 3 a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni, fel y gwenir yn bresennol yn Ysgol Nebo, felly ni ragwelir effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg o safbwynt y ddarpariaeth feithrin.

Yn ogystal, mae Cylch Meithrin wedi ei leoli ar safle Ysgol Llanllyfni sy'n darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i blant cyn-ysgol. Mae'r cyd-weithio rhwng y Cylch ac Ysgol Llanllyfni yn golygu trosglwyddiad esmwyth i'r plant o'r Cylch i'r dosbarth meithrin. Mae'r Cylch yn darparu lleoedd i blant rhwng 2 a 4 oed, ac yn cynnig darpariaethau Dechrau'n Deg, y cynnig 10 awr Addysg Feithrin (Dysgu Sylfaen), ynghyd a darparu gofal cofleidiol i blant oed meithrin Ysgol Llanllyfni ac ysgolion cyfagos. Mae'r Cylch Meithrin hefyd yn rhan o'r Cynllun Gofal Plant, sef cynllun sy'n cynnig hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant blynyddoedd cynnar am ddim. Mae plant yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd tan y Medi ar ôl iddynt droi'n 4.

Nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol Nebo, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol.

## 7.7 Adnoddau Ariannol

Y disgwyliad yw y bydd Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu addysg yn y Sir.

Mae hyn yn fwy pwysig gyda'r hinsawdd heriol iawn sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae'n bwysig felly bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddefnyddio adnoddau mor effeithiol â phosibl o fewn y system addysg a hyfforddiant er lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys yr holl adnoddau - dynol, technegol, adeiladu ac ariannol. Mae gwariant sylweddol ar ysgolion lle mae canran uchel o leoedd gwag.

Amrywia'r gwariant fesul dysgwr yn fawr o ysgol i ysgol.

Ar gyfer yr 21[ain] Ganrif, mae angen sicrhau bod gan Wynedd rwydwaith o ysgolion o'r math cywir yn y lleoliadau cywir ar draws y Sir. Byddai lleihau nifer y lleoedd gwag a sicrhau ysgolion cadarn o ran maint yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu elfennau cynhwysol. Mae gweithredu yn y modd hwn yn hanfodol os ydym am hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws y Sir a lleihau effaith tlodi ym mywydau plant a phobl ifanc.

Mae cyfartaledd cost fesul dysgwr Ysgol Nebo yn £25,867 y dysgwr ar gyfartaledd, i gymharu gyda chyfartaledd cost y dysgwr yng Ngwynedd o £5,780. Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost y dysgwr o £5,798 yn Ysgol Llanllyfni yn y flwyddyn ariannol 2026-27.

| Ysgol | CYFRAN O'R GYLLIDEB 2025-26 | | Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio* |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Gyllideb | Cost Fesul Dysgwr | |
| **Nebo** | £206,936 | £25,867 | £70,694 |
| **Llanllyfni** | £402,831 | £5,768 | - |
| **Cyfartaledd Ysgolion Cynradd y Sir** | - | £5,780 | **Cyfanswm Cynradd y Sir:** £1,385,626 |

**Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob Ysgol sydd gyda 15 neu fwy o ddysgwyr llawn amser, a pennaeth a chymhorthydd dosbarth mewn ysgolion sydd gyda llai na 15 dysgwr llawn amser.*

Mae Ysgol Nebo wedi derbyn £70,694 o gyfraniad y polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio eleni (2025-26). Mae hyn yn gwarantu pennaeth a chymhorthydd dosbarth (mewn ysgolion sydd gyda llai na 15 ddysgwr llawn amser).

O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a pe byddai holl ddysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni, yn seiliedig ar amcangyfrif o gyllideb 2026-27, sef blwyddyn gweithredu'r cynnig (sy'n seiliedig ar ragamcanion niferoedd dysgwyr a ddarparwyd gan benaethiaid yr ysgolion yn Medi 2024):

- rhagwelir y byddai'r cynnig yn creu arbediad blynyddol o £143,000, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £113,000 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Llanllyfni yn cynyddu i £468,000 a'r gost fesul dysgwr yn £5,798.

Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

Noder nad oes costau cyfalaf ynghlwm â'r cynnig.

## 7.8 Amgylchedd Dysgu

Nod y Cyngor yw darparu adeiladau addysg gynradd o ansawdd yn y Sir trwy gynllunio strwythuredig, gan ddarparu ystafelloedd priodol i benaethiaid ysgol ac athrawon a mynediad i gaeau chwarae a neuadd briodol i blant. Bydd angen i adeiladau gydymffurfio â gofynion Cyfnod Sylfaenol a'r cwricwlwm yn ogystal.

Mae'r tabl isod yn cynnwys cyflwr adeiladau Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn ogystal â chostau'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen.

| Ysgol | Categori Cyflwr | Diffygion Cyflwr | Amcan Gost y Cynnal a Chadw sydd ei Angen |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Nebo** | B | • Angen gwaith atgyweirio'r to a gwteri<br>• Angen uwchraddio toiledau<br>• Angen ail rendro waliau allanol<br>• Angen amnewid rhai ffenestri | £95,000 |
| **Ysgol Llanllyfni** | B | • Angen uwchraddio drysau allanol | £15,000 |

**Allwedd i'r Categorïau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A** | DA (Dim Dirywiad) | **C** | GWAEL (Dirywiad Mawr) |
| **B** | BODDHAOL (Mân Ddirywiad) | **D** | DRWG (Wedi cyrraedd diwedd ei hoes) |

*Ffynhonnell: Adran Tai ac Eiddo Gwynedd*

Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon cyflwr blynyddol ar ei holl eiddo. Mae'r arolygon blynyddol yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod ac yn galluogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion.

*Ysgol Nebo*

Mae adeilad Ysgol Nebo wedi'i asesu fel categori cyflwr 'B', sef boddhaol, gyda mannau o ddirywiad sy'n gofyn am waith cynnal a chadw. Mae'r arolwg cyflwr yn nodi'r angen i atgyweirio'r to a gwteri, uwchraddio toiledau, ail rendro waliau allanol ac amnewid rhai ffenestri.

*Ysgol Llanllyfni*

Mae cyflwr Ysgol Llanllyfni wedi ei adnabod yng nghategori cyflwr 'B', gyda'r arolwg yn nodi'r angen i uwchraddio drysau allanol.

## 7.9 Y Gymuned

Cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau er mwyn gallu cymharu'r effaith fyddent yn ei gael ar y cymunedau dan sylw. Mae copi o'r adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo.

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â trefniadaeth ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.

Mae'r tabl isod yn nodi'r defnydd cymunedol adeilad y ddwy ysgol ar hyn o bryd.

| | Nebo | Llanllyfni |
|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | |
| **Aelwyd yr Urdd** | | ✓ |
| **Dramâu** | | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | ✓ | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | ✓ | ✓ |
| **Arwerthiant Cymunedol** | | |
| **Llyfrgell Gymunedol** | | |
| **Ymarfer Côr** | | |
| **Cymraeg i Oedolion** | | |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | ✓ |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | | ✓ |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | | ✓ |
| **Clwb Diddordeb Lleol** | ✓ | |

Nid oes canolfan cymunedol ym mhentref Nebo. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o'r 'ystafell gymunedol' a leolir yn Ysgol Nebo ar gyfer cynnal achlysuron a digwyddiadau cymunedol. Dyma rai o achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol a gynhelir yn ystafell gymunedol Ysgol Nebo:

- Cyfarfodydd misol Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth
- Clybiau Lleol (Clwb dydd Llun, Clwb Gweu a Chrosiet, Nosweithiau cymdeithasol, Clwb Garddio)
- Cymorth Cyntaf efo St John Ambiwlans: Hyfforddiant ar CPR a defnydd y diffibrilyddion ar yr Ysgol a Chapel Nasareth.
- Gwersi Cymraeg i ddysgwyr.
- Lluniaeth ar ôl teithiau lleol a Ras Mynydd Craig Goch.
- Defod Sul y Cofio;
- Gwarchod amgylchedd: Trefnu sesiynau casglu sbwriel a gweithredu atal baw cŵn.

Nodir yn y tabl isod weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw.

| | Nebo | Llanllyfni |
|---|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi** | | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ | |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | | ✓ |

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Nebo yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (78%), gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes.

Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol.

Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Llanllyfni) a rhieni dysgwyr Ysgol Nebo fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Nebo, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn adeilad yr ysgol ar hyn o bryd.

## 7.10 Yr Iaith Gymraeg

Ein disgwyliad yw bod ysgolion Cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu dysgwyr.

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.

Cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Nebo ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo.
Bydd yr asesiad effaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol.

Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith petai'r cynnig yn cael ei wireddu. Mae hyn yn benodol gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg (Cyfrwng Cymraeg, Categori 3), fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r dysgwyr waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.

Yn ogystal, byddai'r dysgwyr yn derbyn addysg mewn ysgol sydd â chanran uwch o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn y cartref (ystadegau CYBLD Ionawr 2025 yn dangos fod 50% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref ac 80% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref).

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Yn unol â'r Polisi Iaith, disgwylir i gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd fod yr un fath ar draws ein hysgolion cynradd. Datblygwyd y Siarter Iaith gan y Cyngor - sy'n weithredol ymhob ysgol gynradd yng

Ngwynedd- er mwyn annog defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, hyrwyddo naws Gymreig ein hysgolion ac ymwybyddiaeth y plant o Gymreictod.

Mae unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

*I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32*

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau Cymraeg 2050).

Mae'r Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod holl ddysgwyr y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- Bod darpariaeth addas i alluogi pob dysgwr i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r dysgwyr hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sy'n gweithredu amcanion a chefnogi targedau'r CSGA.

Ar sail yr uchod, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyflawniad Deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6 o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, Cyngor Gwynedd, sef:

**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
**Deilliant 3**: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg o'u haddysg statudol i'r llall.
**Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
**Deilliant 6**: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Yn ogystal, gan fod Ysgol Llanllyfni, fel Ysgol Nebo, yn ysgol cyfrwng Cymraeg (Categori 3), byddai'r cynnig yn sicrhau fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau yn yr ardal.

O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, a'r targedau a gymeradwywyd yn y Cynllun Strategol y Gymraeg.

Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, ac yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodwch pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau?

Byddai'r cynnig yn golygu fod ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 (Ysgol Nebo) yn cau. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sef Ysgol Llanllyfni. Mae gan Ysgol Llanllyfni ddigon o gapasiti ar gyfer dysgwyr y ddwy ysgol.

Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

| | **Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?** | **Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?** |
|---|---|---|
| 1. | Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. | Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg. |
| 2. | Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid. | Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg. Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol. |

Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd gweithredu penodol. Nodir isod grynodeb o'r effaith a ragwelir ar feysydd gweithredu'r Strategaeth Iaith, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu:

***Iaith y blynyddoedd cynnar*:**

Gan fod Cylch Meithrin wedi ei lleoli ar safle Ysgol Llanllyfni (yr ysgol amgen), rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar iaith y blynyddoedd cynnar.

***Iaith Dysgu*:**

Mae Ysgol Nebo yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Gan fod Ysgol Llanllyfni hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng (categori 3), deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.

***Iaith Gwaith a Gwasanaeth*:**

Cydnabyddir, pe gweithredir y cynnig, y byddai peth effaith negyddol ar yr iaith yn sgil colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3 ym mhentref Nebo sy'n gwasanaethau'r ardal, a gan y byddai'n arwain at ddiswyddiadau staff/gweithlu'r ysgol.

Fodd bynnag, nodir y bod yr ysgol amgen (Ysgol Llanllyfni) fyddai'n gwasanaethu ardal Nebo pe gweithredir y cynnig, hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3). Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar iaith gwaith a gwasanaeth a ddarperir yn yr ysgol amgen.

***Iaith y Gymuned:***

Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.

Gan nad oes adeilad/canolfan gymunedol ym mhentref Nebo, mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o 'ystafell gymunedol' yr ysgol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymunedol gan gynnwys gwersi Cymraeg i ddysgwyr. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

## 7.11 Ffactorau Daearyddol

### 7.11.1. Trefniadau Teithio a chludiant arfaethedig


Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yw anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer dysgwyr ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch.

Wrth symud i'r ysgol amgen, ni ragwelir bydd angen i unrhyw ddysgwr deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Nebo wedi ei leoli 1.6 milltir o safle Ysgol Llanllyfni a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, a byddai costau o ddarparu cludiant i blant presennol Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni oddeutu £17,000 y flwyddyn.


### 7.11.2. Dalgylchoedd Mynediad i Ysgolion

Yn sgil y cynnig byddai dalgylch Ysgol Llanllyfni yn cynnwys dalgylch yr ysgol yn bresennol, a hefyd dalgylch presennol Ysgol Nebo

**Map 1: Dalgylchoedd presennol Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni**




**Map 2: Dalgylch Ysgol Llanllyfni os gweithredir y cynnig**




## 7.11.3. Trefniadau Mynediad Arfaethedig

Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd fyddai'r Awdurdod Mynediad, a byddai mynediad i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Byddai'r Awdurdod yn rheoli derbyniadau i'r ysgol.

### 7.11.4. Llwybrau cerdded

Mae llwybrau cerdded yn ardal Ysgol Llanllyfni wedi eu hamlygu ar y map isod:




## 7.12 Effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar bobl Gwynedd ar y cynnig. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol a'r nodweddion cydraddoldeb. Mae Estyn hefyd yn arolygu ysgolion ac yn asesu agweddau cydraddoldeb yn rhan o'i ganllawiau arferol.

Gweler yr asesiad effaith llawn *'Asesu'r Effaith ar bobl Gwynedd'* ar wefan www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo.

## 7.13 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu'r ysgolion amgen cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Nebo eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y gymuned ac Ysgol Llanllyfni. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys cymuned Nebo lle'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Gweler yr asesiad llawn ar wefan www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo.

## 7.14 Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae gan adeilad Ysgol Llanllyfni gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Nebo i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod.

## 7.15 Ôl ddefnydd y safle

Pe gweithredir y cynnig byddai Ysgol Nebo yn peidio â pharhau i gynnig addysg. Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi yn cael ei ddilyn. Byddai angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai unrhyw un o'r safleoedd yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.

## 7.16 Risgiau Posibl

| Risg | Effaith bosibl | Camau i Liniaru'r Risg |
|---|---|---|
| Diffyg gwneud penderfyniadau | Anallu i roi newid ar waith oherwydd diffyg penderfyniadau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o aflonyddu addysg dysgwyr. Gallai achosi niwed i enw da'r Cyngor | Amserlen gyda cherrig milltir clir sy'n nodi pan fo angen penderfyniadau allweddol gan yr Aelod Cabinet Addysg |
| Cludiant annigonol ar gyfer y trefniadau newydd | Plant yn methu cael mynediad i'r ysgol amgen | Paratoi a chynllunio amserlen gyda cherrig milltir clir ar gyfer cynllunio a thendro cludiant ym mhell o flaen y diwrnod trosglwyddo dysgwyr |
| Ansawdd yr addysg yn y tymor byr tra bod sefyllfa'r ysgol yn cael eu hadolygu | Gostwng ansawdd ar gyfer y dysgwyr | Monitro'r ysgolion yn unol â pholisi'r adran Addysg. |

## 7.17 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig

Amlinellir y manteision ac anfanteision a adnabuwyd ar gyfer y cynnig yn y tabl isod:

| Ystyriaethau | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Maint Dosbarthiadau** | Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas.<br><br>Dysgwyr i gymysgu yn ddyddiol a chael eu haddysgu gyda phlant eraill o'r un oedran. | |
| **Niferoedd Dysgwyr** | Niferoedd yr ysgol a fydd yn darparu addysg ar gyfer yr ardal yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.<br><br>Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch. | |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Niferoedd dysgwyr yr ysgol amgen yn rhoi tegwch i'r Pennaeth fedru arwain a rheoli yn yr ysgol. | Effaith ar gyflogaeth staff |
| **Y Gymuned** | | Pentref Nebo yn colli ysgol. |
| **Adnoddau Ariannol** | Ni fydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cyfraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio.<br>Lleihau'r gost fesul dysgwr o addysgu. | Costau cludiant i'r Awdurdod os yw'r ysgol amgen yn fwy na 2 filltir o gartrefi dysgwyr. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Addysg cyfrwng Cymraeg, Categori 3, yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol. | |

| Ystyriaethau | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Ffactorau Daearyddol** | Ni fydd unrhyw ddysgwr yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Bydd angen i rai o'r dysgwyr deithio ymhellach nac y gwnaent ar hyn o bryd. |
| **Ystyriaethau eraill** | Ansawdd addysg.<br>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.<br>Cynnig profiadau i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion. | |

## 8. Crynodeb o'r Cynnig

Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd Ysgol Nebo yn cau a bod dysgwyr yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni.

Cau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

## 9. Egluro'r Broses Statudol a Manylion Ymgynghori

Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2025, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i "*i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.*"

Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i symud ymlaen i gyfnod o ymgynghori'n statudol ar yr opsiwn a ffafrir. Hon yw'r ddogfen ymgynghori sy'n cynnwys manylion y cynnig. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar **5 Rhagfyr 2025** a gellir derbyn ymatebion tan **13:00 ar ddydd Gwener, 23 Ionawr 2026. Ni fydd ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau, ond sylwadau.** Os oes unrhyw un yn dymuno gwrthwynebu, rhaid iddynt wneud hynny yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol (pe bai un yn cael ei gyhoeddi). Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall yr ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig, yr opsiynau amgen a nodwyd, a/neu awgrymu opsiynau eraill.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol hwn, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym Mawrth 2026, lle byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud p'un ai a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig hwn ai peidio. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai ac yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r materion. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr yr ysgol fod yr adroddiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael, e.e. Estyn, Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad perthnasol ac Aelodau Seneddol ayyb.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "**cyfnod gwrthwynebu**" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd yn agos at y brif dderbynfa'r ddwy ysgol sy'n ymwneud â'r cynnig; bydd copïau yn cael eu hanfon at yr ysgolion i'w

dosbarthu i ddysgwyr, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau caled ar gael ar gais gan y swyddfa moderneiddio addysg.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "adroddiad gwrthwynebiadau". Bydd yr adroddiad gwrthwynebiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod hefyd i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol fod yr adroddiad gwrthwynebiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad gwrthwynebiad ar gael.

Bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y cynnig cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill hefyd yn cael eu hysbysu am y penderfyniad.

Mewn rhai achosion - yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet - mae'n bosibl i'r cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w hystyried:

- Awdurdod Lleol arall a effeithir gan y cynnig
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol a effeithir arni
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun i'r cynigion
- Unrhyw Ymddiriedolaeth sy'n dal tir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun cynnig
- Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynigion

Mae angen i'r cyrff sy'n cyfeirio'r cynnig nodi'r rheswm pam maen nhw o'r farn bod y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r cynigion yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion.

# 10. Amserlen Arfaethedig

| Dyddiad | Cam |
|---|---|
| **14 Hydref 2025** | **Adroddiad y Cabinet (Papur Cynnig):** yn gofyn am ganiatâd i gynnal ymgynghoriad statudol |
| **5 Rhagfyr 2025** | **Cychwyn cyfnod ymgynghori statudol:** O leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghorai ymateb, o leiaf 20 diwrnod o'r dyddiau hynny yn ddyddiau ysgol. |
| **23 Ionawr 2026** | **Dyddiad cau'r ymgynghoriad statudol:** Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig |
| **Mawrth 2026** | **Cabinet:** Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Cyngor |
| **Mai 2026** | **Cyhoeddi rhybudd statudol:** Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod |
| **Medi 2026** | **Y Cabinet:** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. |
| **Hydref 2026** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:<br>i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;<br>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |
| **31 Rhagfyr 2026** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Nebo yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet. |

## Atodiad 1 – Ffurflen Ymateb

**Ffurflen Ymateb - Ymgynghoriad Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo**

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Nebo. Y cynnig yw: *"i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen."*

Mae'r ddogfen ymgynghori statudol a'r asesiadau effaith cysylltiedig ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo

Mae'r ffurflen ymateb yma'n eich caniatáu i gyflwyno sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig, yr opsiynau amgen a nodwyd, a/neu awgrymu opsiynau eraill.

**Noder na chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi. Dim ond yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.**

Mae modd hefyd llenwi'r ffurflen ymateb yma ar-lein:
www.gwynedd.llyw.cymru/FfurflenYmatebYsgolNebo

**Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol**:
Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu cyhoeddi'n llawn (heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau), ar wefan Cyngor Gwynedd fel rhan o adroddiad ar yr ymgynghoriad a gyflwynir i Gabinet Cyngor Gwynedd. Nodwch isod os ydych yn caniatáu i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb drwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

☐ Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
☐ **Nid** wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Pa bynnag opsiwn a ddewisir, byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau, a bydd eich sylwadau yn cael eu defnyddio i lunio adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

**Anfonwch eich ymateb at:**
**E-bost:** ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru *neu*
**Post:** Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg,
Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
**Dyddiad cau:** 13:00 ar ddydd Gwener, 23 Ionawr 2026

**Adroddiad Ymgynghori:**

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghorai ac yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r materion.

Os dymunwch dderbyn hysbysiad pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi, darparwch eich manylion cyswllt isod:
**Cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:** ________________________________

**Rhan 1 – Ymateb i'r ymgynghoriad**

**1.** (a) Rwy'n ymateb fel (nodwch isod os gwelwch yn dda):

☐ Rhiant/ Gwarchodwr ☐ Dysgwr

☐ Llywodraethwr Ysgol ☐ Staff

☐ Arall:________________________________

(b) o'r ysgol ganlynol (nodwch isod os gwelwch yn dda):

☐ Ysgol Nebo ☐ Ysgol Llanllyfni ☐ Arall:________________

**2. Nodwch isod eich sylwadau ynghylch y cynnig: '*i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen*', a/neu unrhyw sylwadau ynghylch unrhyw un o'r opsiynau amgen a nodwyd gan y Cyngor:**

**3. Oes opsiynau amgen eraill hoffech eu hawgrymu a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros y cynnig i gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, y mae'r Cyngor am geisio ymateb iddynt)?** *Nodwch unrhyw opsiwn neu opsiynau amgen eraill y dymunwch i'r Cyngor eu hystyried isod:*

4. **A oes yna unrhyw faterion, neu effeithiau posib, rydych chi o'r farn y dylai'r Cyngor eu hystyried, ac nad ydynt eisoes wedi cael sylw yn yr asesiadau effaith neu ddogfennau eraill yn yr ymgynghoriad?** (Asesiadau Effaith a'r dogfennau eraill yn yr ymgynghoriad i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo)

   **Yn benodol, a yw'r cynnig yn debygol o gael mwy neu lai o effaith ar rai grwpiau o bobl gyda nodweddion cydraddoldeb[1] neu sy'n profi anfantais Economaidd-Gymdeithasol[2]?**

## Rhan 2 – Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae'n eu gwneud ar yr iaith Gymraeg.

5. **Yn eich barn chi, pa effeithiau, y byddai'r cynnig yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

---

[1] *Nodwedd cydraddoldeb: Nodwedd sy'n cael ei warchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef Oedran, Rhyw, Hil, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd neu Gred, Anabledd, Ailbennu Rhywedd a Beichiogrwydd a Mamolaeth*.

[2] *Anfantais Economaidd-Gymdeithasol: mae'n golygu mwy na tlodi ariannol yn unig, gall gynnwys pethau fel byw'n bell oddi wrth wasanaethau, anfantais digidol ayb.*

6. **Yn eich barn chi, sut fyddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

7. **Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**